

A phan glywch am ryfeloedd a sŏn am ryfeloedd, peidiwch â chyffroi. Rhaid i hyn ddigwydd, ond nid yw'r diwedd eto. Oblegid cyfyd cenedl yn erbyn cenedl, a theyrnas yn erbyn teyrnas. Bydd daeargrynfaŭ mewn mannau. Bydd adegau o newyn. Dechrau'r gwewyr fydd hyn. Marc 13: 7-9

Pa Ddewis?

A dyma ni'n wynebu'r penderfyniad blynyddol.

Pabi neu beidio?

Pabi Coch?

Neu Babi Gwyn ... neu ddim o gwbl?

Bydd rhai ohonom yn cydymdeimlo gyda barn yr actor Mark Rylance a ddywedodd y dylai pawb ohonom wisgo'r pabi gwyn gan fod gwisgo pabi coch yn awgrymu bod rhyfel rhywsut yn anorod.

A gyda'r sefyllfa yn Mosul ac yn Aleppo mor erchyll, a brwydro yn Yemen a De Sudan yn ymddangos yn ddyddiol bron yn adroddiadau'r newyddion ar y cyfryngau, pwy na fyddai am ddweud, "Oes 'na ddim ffordd amgenach o oresgyn ein gwahaniaethau? Oes rhaid troi at fom neu fwled er mwyn ceisio ffyrdd o gyd-fyw?"

Ac o'n mewn mae'r waedd na chaiff ei glywed gan arweinwyr y gwledydd.

"Onid yw bywydau pob un a leddir gan fwled a bom yn ddigon gwerthfawr yn eich golwg fel na allwch arbed y claf, y gwan a'r diniwed?"

Ac onid yw colled pob un person trwy fom neu fwled yn gynnud i'r tân- tân na chaiff ei ddiiffodd gan ddialedd na rhagor o dywallt gwaed diniwed?"

Ac yn ychwanegol at hyn oll pobl nad ydynt yn ymladd mewn brwydrau yw mwyafrif y rhai sy'n dioddef effeithiau erchyll ymosodiadau milwrol neu derfysgol heddiw.

Nid milwyr yw mwyafrif dioddefwyr Aleppo yn Syria. Ac os ffrwydrir bomiau gan derfysgwyr mewn dinas boblog, pobl gyffredin yw'r dioddefwyr. Mae targedau "meddal" yn gwaedu a sgrechian – fel pawb arall ohonom.

Dacw blentyn fydd am weddill ei fywyd yn ofni sŵn awyren neu glec annisgwyl. A dacw fam na fydd byth yn medru anghofio'r dydd y disgynnodd bomiau a difa bywyd ei chymdeithas a'i theulu. Neu draw fe welwn dad a gollodd bawb oedd yn annwyl iddo yn galaru ac yn wylo mewn rhwystredigaeth ac euogrydd na allodd wneud dim i'w harbed.

Ac felly mae'r syniad o wisgo pabi gwyn yn fynegiant o'n dyhead am heddwch, am derfyn ar ryfel a'i apêl. A wisgwn babi gwyn er mwyn dweud "Na"?

Ond ...

Dyma gofio hefyd bod Sul y Cofio, i lawer ohonom yn awr ddwys, yn gyfle i ddwyn ar gof yr aelodau hynny o'n teuluoedd, ein ffrindiau a'n cymunedau a aeth i ymladd gan lwy'r gredu nad oedd ffordd arall o drechu drygioni.

A fyddwn yn ddibris o'u coffadwriaeth?

Ac eleni wrth feddwl am golledion enbyd a fu ym Mrwydr y Somme, neu mewn rhyfeloedd diweddarach, cawn ein rhwygo wrth feddwl am y miliynau o fywydau a effeithiwyd gan greithiau Rhyfeloedd byd.

Sul y Cofio



Ac yna cofiwn am rai a gollodd eu gwaed mewn brwydrau yn Irac, neu Afghanistan, a chofiwn am bobl a ddychwelodd o faes y gad sydd wedi gweld a chlywed pethau na ddylai unrhyw fod dynol byth eu hwynebu yn nhanbeidrwydd uffernol yr ymladd.

Byddant yn byw mewn ofn, yn hunllef eu profiadau gyda chlwyfau a phoen yn gysgodion ac yn greithiau byw bob dydd o'i hoes ar gorff ar ysbryd a chydwybod tra pery anadl o'i mewn.

Nid sŏn am filitariaeth nac ymffrost a rhwysg llywodraethau sydd â gwaed ar eu dwylo a wnawn wrth gofio'r pobl yma.

Cofio pobl a wnawn. Pobl bach, meidrol, ofnus, dewr, sydd â gwythiennau a chleisiau, cof a chydwybod a nerfau a phryderon.

Dyna oedd, a dyna yw, pob un a gollodd waed ac sy'n dioddef hyd heddiw.

A wisgwn babi coch? Er mwyn cofio.

Er mwyn cofio erchylltra.

Er mwyn cofio faint o waed dynol a chwys ac aberth a gollwyd?

Bobl bach, helpwch ni!

Pa liw pabi ddylem ni ei wisgo?

Coch i gofio?

Gwyn i ymbil?

Neu, ddim o gwbl?